# PWYLLGOR CYNLLUNIO A GORCHMYNION

## Cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 1 Mehefin 2011

| | |
|---|---|
| **PRESENNOL:** | Y Cynghorydd John Arwel Roberts - Cadeirydd<br><br>Y Cynghorwyr W.J.Chorlton; E.G.Davies; Lewis Davies; Jim Evans; K.P.Hughes; W.T.Hughes; T.H.Jones; C.McGregor; R.L.Owen; Eric Roberts; H.W.Thomas; J.Penri Williams. |
| **HEFYD YN BRESENNOL :** | Y Cynghorwyr B.Durkin (11.2); Fflur Hughes (12.3); D.R.Hughes (12.5); Ieuan Williams (12.2). |
| **WRTH LAW:** | Prif Swyddog Cynllunio (EGJ)(ar gyfer eitem 13.1);<br>Rheolwr Rheoli Cynllunio (DFJ);<br>Cynorthwywyr Cynllunio.<br><br>Prif Beiriannydd (Datblygu a Hawliau Tramwy Cyhoeddus) (JRWO);<br>Swyddog Rheoli Datblygu (RE);<br>Rheolwr Gwasanaethau Cyfreithiol (RJ);<br>Swyddog Pwyllgor (JMA) ;<br>Cynorthwy-ydd Gweinyddol (SWJ). |

---

**1 YMDDIHEURIADAU**

Ni chafwyd yr un ymddiheuriad am absenoldeb.

**2 DATGANIAD O DDIDDORDEB**

Derbyniwyd a chofnodwyd datganiadau o ddiddordeb dan yr eitemau perthnasol.

**3 COFNODION**

Cyflwynwyd a chadarnhawyd fel rhai cywir, y cofnodion o’r cyfarfodydd o’r Pwyllgor Cynllunio a Gorchmynion a gynhaliwyd ar 4 Mai a 20 Mai 2011.

Dywedodd y Cynghorydd Hefin Thomas na allai dderbyn swydd Is-Gadeirydd y Pwyllgor hwn fel y penderfynwyd yn y cyfarfod ar 20 Mai oherwydd nad oedd modd iddo ymrwymo’r amser angenrheidiol i gefnogi’r Cadeirydd a’r Adran Gynllunio.

**Cytunwyd bod eitem ynghylch Ethol Is-Gadeirydd yn cael ei chynnwys fel rhan o’r Rhaglen ar gyfer y cyfarfod nesaf o’r Pwyllgor hwn.**

4 **YMWELIADAU SAFLE**

Ni chafwyd Ymweliadau Safle ym mis Mai 2011.

**5 SIARAD CYHOEDDUS**

Dywedodd y Cadeirydd y byddai siaradwyr cyhoeddus mewn perthynas â cheisiadau 12.3 a 12.4.

**6 CEISIADAU A OHIRIWYD**

**6.1 –35C87C – Addasu adeiladau allanol i greu 7 o unedau preswyl ynghyd â gosod gwaith trin preifat yn Tros y Marian, Llangoed**

*(Gwnaed Datganiadau o Ddiddordeb gan y Cynghorwyr Lewis Davies a Hefin Thomas. Gadawodd y ddau y cyfarfod yn ystod y drafodaeth ar y cais hwn).*

Dywedodd y Rheolwr Rheoli Cynllunio bod angen datrys materion ychwanegol ynghylch draenio a materion eraill a godwyd yn y cyfarfod blaenorol o'r Pwyllgor cyn penderfynu ar y cais. Ychwanegodd, fodd bynnag, y gallai'r cais gael ei gyflwyno i'r cyfarfod o'r Pwyllgor ar 6 neu 27 Gorffennaf i'w benderfynu.

**PENDERFYNWYD gohirio ystyried y cais hyd nes y bydd y materion sydd angen sylw wedi'u datrys.**

**7. CEISIADAU YN CODI O'R COFNODION**

**7.1–11C557B**
**Codi dau dyrbin gwynt gyda rotor na fydd yn hwy na 70 o fetrau ar draws ac na fydd yn fwy na 92.5 o fetrau i ben y llafn ynghyd â chodi is-orsaf ac adeilad rheoli, trac mynediad newydd a llecynnau caled cysylltiedig â datblygiadau ar dir yn Ysgellog, Rhosgoch.**

***(Gwnaed Datganiadau o Ddiddordeb gan y Cynghorwyr WT Hughes a TH Jones - Gadawodd y ddau y cyfarfod yn ystod y drafodaeth ar y cais hwn).***

Ailgyflwynwyd y cais i'r Pwyllgor yn dilyn ei benderfyniad yn y Pwyllgor ar 4 Mai i gymeradwyo'r cais a hynny'n groes i argymhelliad y Swyddog. Atgoffodd y Cadeirydd yr Aelodau bod y Swyddog yn parhau i argymell gwrthod y cais.

Dywedodd y Rheolwr Rheoli Cynllunio y cafwyd trafodaeth faith yn y cyfarfod o'r Pwyllgor ym mis Mai mewn perthynas â'r ddau dyrbin gwynt a'i fod yn deall y bu'n benderfyniad anodd i'r aelodau ei wneud. Fodd bynnag, roedd wedi derbyn penderfyniad y Pwyllgor ac wedi cynnig amodau y byddai'n dymuno eu gweld yn cael eu gosod ar unrhyw rybudd o benderfyniad. Ychwanegodd bod trafodaethau yn parhau ynghylch materion fel sŵn, a gofynnodd i'r Aelodau roi hawl i weithredu i'r Swyddogion unwaith y bydd yr ymgynghoriadau technegol wedi dod i ben a hefyd ynghylch union eiriad yr amodau, yn arbennig yr amod ynghylch sŵn. Dywedodd y Cynghorydd Hefin Thomas ei fod yn sylwi y byddai'r tyrbinau yn cael eu dadgomisiynu ar ôl 25 o flynyddoedd a gofynnodd a fyddai modd ailymgeisio am ganiatâd. Cadarnhaodd y Swyddog y byddai modd gwneud hynny.

Cynigiodd y Cynghorydd John Chorlton y dylid cymeradwyo'r cais a rhoi hawl i weithredu i'r Swyddogion. Cafodd y cynnig ei eilio gan y Cynghorydd K Hughes.

**PENDERFYNWYD cymeradwyo'r cais a rhoi Hawl i Weithredu i'r Swyddogion i gytuno ar union eiriad yr amodau gyda'r ymgeisydd.**

*Nodwyd nad oedd y Cynghorwyr C McGregor na L Davies wedi pleidleisio ar y cais oherwydd nad oeddynt yn rhan o'r drafodaeth flaenorol a gafwyd ar y cais nac wedi ymweld â'r safle. Ymataliodd y Cynghorydd Eric Roberts rhag pleidleisio.*

**7.2– 23LPA858A/CC**
**Cais llawn i godi annedd yn lle annedd a ddinistriwyd gan dân ac a gafodd ei dymchwel wedyn oherwydd rhesymau iechyd a diogelwch yn Tynronnen Farm, Llangwyllog.**

Gohiriwyd y cais yn y Pwyllgor Cynllunio a Gorchmynion a gynhaliwyd ar 4 Mai 2011 fel bod modd i Swyddogion edrych eto ar y cyfiawnhad ar gyfer yr annedd ac ystyried y sail polisi ar gyfer y cais yn wyneb yr amgylchiadau a oedd wedi arwain at y cais, h.y. bod yr hen annedd wedi'i dinistrio gan dân. Gwnaed y cais gan yr Awdurdod Lleol fel perchennog yr eiddo.

Cadarnhaodd y Rheolwr Rheoli Cynllunio ei fod yn credu'n wreiddiol bod y cais yn groes i'r Polisi Cynllunio. Fodd bynnag, ar ôl ailystyried y cais, ei benderfyniad terfynol oedd nad oedd y cais yn tynnu'n groes i'r Polisi Cynllunio. Roedd yn ystyried bod y cais yn debyg i gais am annedd yn lle annedd a oedd yno eisoes, ac er ei fod y tu allan i'r ffin ddatblygu, byddai'r cais yn cael ei drin fel cais am adeilad amaethyddol. Roedd yr annedd a oedd yno gynt yn annedd amaethyddol a oedd yn cael ei phrydlesu gan y Cyngor Sir ac felly byddai amod amaethyddol yn cael ei chynnwys fel rhan o'r amodau cynllunio. Roedd yn credu bod y rhain yn amgylchiadau eithriadol oherwydd bod yr hen annedd wedi mynd ar dân ac fe gafodd ei dymchwel wedyn oherwydd rhesymau Iechyd a Diogelwch.

Dywedodd yr Aelod Lleol, y Cynghorydd C McGregor, fod gan y Cyngor Cymuned Lleol bob cydymdeimlad gyda thenant blaenorol yr eiddo a'i fod yn cefnogi'r cais. Er ei fod ef hefyd yn cydymdeimlo gyda'r tenantiaid blaenorol, ni fyddai'n pleidleisio ar y cais oherwydd rhesymau tegwch.

Mewn ymateb i gwestiwn gan y Cynghorydd Hefin Thomas, cadarnhaodd y Swyddog y byddai'r annedd newydd yn dŷ dau lawr gyda thair ystafell wely ac y byddai o faint tebyg i'r annedd a oedd yno gynt.

Cynigiodd y Cynghorydd Eric Roberts y dylid cymeradwyo'r cais ac fe gafodd ei eilio gan y Cynghorydd R L Owen.

**PENDERFYNWYD cymeradwyo'r cais yn unol ag argymhelliad y Swyddog a chyda'r amodau a nodir yn adroddiad y Swyddog.**

*Ymataliodd y Cynghorydd C McGregor rhag pleidleisio ar y cais.*

## 8 CEISIADAU ECONOMAIDD

Ni chyflwynwyd unrhyw Geisiadau Economaidd i'w penderfynu gan y Pwyllgor hwn.

## 9 CEISIADAU AM DAI FFORDDIADWY

Ni chyflwynwyd unrhyw geisiadau am Dai Fforddiadwy i'w penderfynu.

## 10 CEISIADAU A OEDD YN TYNNU'N GROES

### 10.1 –37C26S – Adnewyddu caniatâd cynllunio 37C26P ar gyfer datblygiad preswyl ar dir yn Merddyn Gwyn, Brynsiencyn.

Dywedodd y Rheolwr Rheoli Cynllunio bod y cais, yn rhannol, yn tynnu'n groes i'r cynllun lleol a fabwysiadwyd ar gyfer Ynys Môn ond bod modd ei gefnogi dan y Cynllun Datblygu Unedol a Stopiwyd. Mae'r Datblygiad yn gais i godi tair ar ddeg o dai, gyda phedwar ohonynt yn dai fforddiadwy. Cymeradwywyd y cais gwreiddiol yn 2007 ac mae'r cais cyfredol hwn yn gais i adnewyddu'r caniatâd hwnnw. Roedd y Swyddog wedi ailasesu'r cais dan yr amgylchiadau cyfredol ac roedd yn fodlon na fu unrhyw newid o bwys yn yr amgylchiadau. Roedd yn argymell cymeradwyo'r cais gyda chytundeb Adran 106 i sicrhau elfen o dai fforddiadwy.

Cynigiodd y Cynghorydd Hefin Thomas y dylid cymeradwyo'r cais ac fe gafodd ei eilio gan y Cynghorydd Eric Roberts.

**PENDERFYNWYD cymeradwyo'r cais gyda'r amodau a amlinellir yn adroddiad y Swyddog a chyda Cytundeb Adran 106 mewn perthynas â'r elfen tai fforddiadwy.**

## 11 CYNIGION DATBLYGU A GYFLWYNWYD GAN GYNGHORWYR A SWYDDOGION

### 11.1 –20C228C – Newidiadau i garej a gymeradwywyd yn flaenorol dan gais cynllunio 20C228B yn Gorddiniog, Cemaes.

Dywedodd y Rheolwr Rheoli Cynllunio bod yr ymgeisydd yn gweithio i'r Cyngor. Cais oedd hwn i ddymchwel y garej to fflat a chodi garej deulawr yn ei lle. Mae'r cais yn newid i gais a gymeradwywyd eisoes ar gyfer y safle. Cadarnhaodd y Swyddog bod y cais wedi'i ddiwygio ers ei gymeradwyo yn 2010, ond roedd hynny wedi arwain at ostyngiad ym maint y garej. Roedd yn argymell cymeradwyo'r cais yn amodol ar gwblhau'r broses ymgynghori yn foddhaol.

Cynigiodd y Cynghorydd W T Hughes y dylid cymeradwyo'r cais ac fe gafodd ei eilio gan y Cynghorydd R L Owen.

**PENDERFYNWYD cymeradwyo'r cais a rhoddi Hawl i Weithredu i'r Swyddogion ar ôl i'r cyfnod ymgynghori ddod i ben yn foddhaol.**

**11.2 – 30C692A – cais llawn i godi annedd ynghyd â gosod gwaith trin a chreu mynedfa newydd ar dir yn Meusydd,Llanbedrgoch.**

Dywedodd y Rheolwr Rheoli Cynllunio bod yr ymgeisydd yn gweithio i'r Cyngor. Ychwanegodd bod y datblygiad arfaethedig yn gyson â Pholisi 50 sy'n caniatáu datblygu ar gyrion pentref. Roedd yn dymuno cynnwys dyddiad y cynllun a chyfeirnod y cais fel rhan o'r amod perthnasol.

Dywedodd y Cynghorydd Barrie Durkin, yr Aelod Lleol, fod y Cyngor Cymuned wedi cefnogi'r cais ac er nad oedd ganddo bryder mawr, roedd yn dymuno codi mater diogelwch priffyrdd oherwydd bod y ffordd hon yn un beryglus gyda thraffig yn teithio'n gyflym iawn arni. Er bod amod na ddylai'r waliau, y gwrychoedd a'r ffens wrth y fynedfa fod yn uwch na 1m, roedd yn credu y byddai'n ddoeth cael amod ynghylch sicrhau llain welededd i'r wal ffrynt.

Dygodd y Prif Beiriannydd (Rheoli Datblygu a Hawliau Tramwy Cyhoeddus) sylw at amod (2)yr adroddiad a osodwyd er mwyn sicrhau gwelededd. Roedd yn credu nad oedd angen llain welededd. Dywedodd y Cynghorydd Hefin Thomas ei fod yn deall bod angen llain welededd wrth ddod allan o lôn fel yr un y cyfeirir ati yn y cais. Cadarnhaodd y swyddog eto nad oedd cael llain welededd yn hanfodol oherwydd y byddai modd gweld yn glir dros y wal a byddai hynny'n sicrhau y gellid gweld traffig o'r ddau gyfeiriad ac o'r ffordd fawr. Dywedodd y Cynghorydd T Jones ei fod yn credu nad oedd y gwelededd i'r dde yn fater a oedd o fewn perchenogaeth na rheolaeth yr ymgeisydd. Cadarnhaodd y Swyddog bod palmant/ymyl 2m o led o'r ffordd i'r wal a bod gweldeddd clir i'r dde.

Cynigiodd y Cynghorydd John Penri Williams y dylid cymeradwyo'r cais fel yr argymhellwyd ac fe gafodd ei eilio gan y Cynghorydd K Hughes.

**PENDERFYNWYD cymeradwyo'r cais yn unol ag argymhelliad y Swyddog a chyda'r amodau a gafodd eu cynnwys fel rhan o adroddiad y Swyddog i'r Pwyllgor.**

*Ymataliodd y Cynghorydd Hefin Thomas rhag pleidleisio ar y cais.*

**11.3 – 42C225 – Dymchwel garej ac ystafell haul a chodi estyniad yn 36 Nant y Felin, Pentraeth.**

Dywedodd y Rheolwr Rheoli Cynllunio bod yr ymgeisydd yn gweithio i'r Cyngor.

Cais yw hwn i ddymchwel y garej a'r ystafell haul sydd yno ar hyn o bryd a chodi estyniad un grib.

Cymeradwyodd y Cynghorydd Hefin Thomas y dylid cymeradwyo'r cais ac fe gafodd ei eilio gan y Cynghorydd John Chorlton.

**PENDERFYNWYD cymeradwyo'r cais yn unol ag argymhelliad y Swyddog a rhoi hawl i weithredu i Swyddogion ar ôl cwblhau'r cyfnod ymgynghori yn llwyddiannus.**

**11.4 – 49C304 – Cais llawn i wneud gwaith addasu ac estyn ynghyd â chodi garej newydd yn Wern Olau, Ffordd Trearddur, y Fali.**

Dywedodd y Rheolwr Rheoli Cynllunio bod yr ymgeisydd yn ffrind agos i Swyddog sy'n gweithio yn yr Adran Cynllunio a bod y Swyddog Monitro wedi sgriwtineiddio'r cais yn unol â gofynion paragraff 4.6.10.4 y Cyfansoddiad.

Mae'r cais yn cynnwys codi ystafell haul y tu cefn i'r eiddo ynghyd â chodi garej annibynnol newydd gydag ystafell amlbwrpas a thoiled y tu cefn i'r garej.

Cynigiodd y Cynghorydd Eric Roberts y dylid cymeradwyo'r cais ac fe gafodd ei eilio gan y Cynghorydd John Chorlton.

**PENDERFYNWYD cymeradwyo'r cais yn unol ag argymhelliad y Swyddog a chyda'r amodau a gafodd eu cynnwys fel rhan o adroddiad y Swyddog i'r Pwyllgor.**

***Cadarnhaodd y Rheolwr Gwasanaethau Cyfreithiol bod yr holl gynigion datblygu a gyflwynwyd gan Gynghorwyr ac/neu Swyddogion wedi'u sgriwtineiddio gan y Swyddog Monitro yn unol â gofynion paragraff 4.6.10.4. yng Nghyfansoddiad y Cyngor, er nad oedd hynny wedi'i nodi ym mhob adroddiad o'r fath.***

**12 GWEDDILL Y CEISIADAU**

**12.1 –22C203 – Gwaith altro ac ymestyn yn 1 Pentre Bolion, Llanddona.**

Cyflwynwyd y cais i'r Pwyllgor ar gais yr Aelod Lleol, y Cynghorydd Hefin Thomas.

Cadarnhaodd y Rheolwr Rheoli Cynllunio ei fod wedi cymryd gwrthwynebiadau lleol i ystyriaeth ond ei fod wedi rhoi sylw i'r cais o safbwynt cynllunio yn unig a'i fod yn argymell y dylid ei gymeradwyo.

Pwysleisiodd y Cynghorydd Thomas y gwrthwynebiad cryf yn lleol ac atgoffodd yr Aelodau mai bwthyn bychan oedd yr annedd hon yn wreiddiol. Pe bai'r cais hwn yn cael ei gymeradwyo, byddai'r cynnydd ym maint yr annedd yn achos pryder. Dywedodd bod y gwaith altro ac ymestyn wedi cael ei wneud mewn dau neu dri chyfnod a, phe bai'r ymgeisydd wedi gwneud cais am ganiatâd ar gyfer pob cyfnod o'r gwaith mewn un cais, roedd yn credu'n bendant y byddai'r cais wedi'i wrthod. Roedd y Swyddog yn cytuno nad oedd modd dadlau ynghylch y newidiadau i'r eiddo ond roedd wedi asesu'r cais yn seiliedig ar yr eiddo sydd yno ar hyn o bryd yn unig ac nid oedd ganddo unrhyw reswm i wrthod y cais.

Cynigiodd y Cynghorydd R L Owen y dylid cymeradwyo'r cais ac fe gafodd ei eilio gan y Cynghorydd K Hughes.

**PENDERFYNWYD cymeradwyo'r cais yn unol ag argymhelliad y Swyddog a chyda'r amodau a gafodd eu cynnwys fel rhan o adroddiad y Swyddog i'r Pwyllgor.**

**12.2 – 30C709 – Cais llawn i godi 2 annedd ynghyd ag adeiladu mynedfa newydd ar dir yn Broadlea, 31 Maes Llydan, Benllech.**

Cyflwynwyd y cais i'r Pwyllgor ar gais Cadeirydd y Pwyllgor Cynllunio a Gorchmynion, y Cynghorydd J Arwel Roberts oherwydd bod yr Aelod Lleol wedi gofyn iddo wneud hynny.

Cadarnhaodd y Rheolwr Rheoli Cynllunio bod y cais yn un ar gyfer dwy annedd wedi'u lleoli'n ganolog rhwng dwy stad breswyl fawr. Roedd y defnydd tir yn dderbyniol ac roedd y datblygiad yn cydymffurfio gyda phatrwm datblygu cyfredol yr ardal. Roedd y cais yn cynnwys gwelliannau i'r ffordd. Roedd wedi ymateb i'r gwrthwynebiadau lleol yn ei adroddiad i'r Pwyllgor. Roedd yn argymell cymeradwyo'r cais.

Dywedodd y Cynghorydd Ieuan Williams ei fod yn cynrychioli trigolion lleol a oedd wedi gofyn iddo fynegi eu pryder ynghylch materion priffyrdd yn yr ystyr y byddai lledu'r ffordd yn arwain at wneud y palmant yn gulach. Roedd yn credu bod hynny'n tynnu'n groes i'r sylwadau yn adroddiad y Swyddog ynghylch gwelliannau i'r ffordd oherwydd ei fod yn ystyried bod gwneud y palmant yn gulach yn ddatblygiad negyddol. Cyfeiriodd at amryfal ganllawiau cenedlaethol a oedd yn dweud y dylai palmentydd fod o leiaf 1.8m o led ar ddatblygiadau newydd a dygodd sylw hefyd at y ffaith bod y palmant hwn yn 1.5m o led ar hyn o bryd ac y byddai'n cael ei gulhau oherwydd bod y ffordd yn cael ei lledu yn y datblygiad. Ychwanegodd bod pryder yn arbennig oherwydd bod cyfleuster meithrinfa yn yr ardal ac roedd rhieni gyda phramiau yn defnyddio'r palmant. Mynegodd bryder hefyd ynghylch y defnydd o'r safle yn y dyfodol a gofynnodd i'r Swyddog gysylltu â'r ymgeisydd i sefydlu pa ddefnydd a wneid o'r safle yn y dyfodol. Roedd yn credu y byddai'n gynamserol cymeradwyo'r cais a gofynnodd i'r aelodau ymweld â'r safle cyn gwneud penderfyniad.

Dywedodd y Prif Beiriannydd (Rheoli Datblygu a Hawliau Tramwy Cyhoeddus) bod angen palmentydd o led 1.8m - 2.0m ar gyfer stadau newydd, ond stad yw hon sydd yno'n barod. Dywedodd bod y ffordd ar hyn o bryd rhwng 3.7m a 3.9m o led sy'n cyfyngu dau gerbyd sy'n pasio ei gilydd. O'r herwydd, mae'r cerbydau wedi'u parcio hanner ffordd i fyny ar hyd y palmant. Roedd yn derbyn y byddai'r gwelliannau i'r ffordd yn golygu y byddai lled y palmant yn 1.2m ond dywedodd bod hynny'n ddigonol ar gyfer pobl sy'n gwthio cadeiriau olwyn a phramiau. Roedd yn credu y byddai o fantais lledu'r ffordd i gadw cerbydau oddi ar y palmant ac roedd yn credu y byddai'r datblygiad yn fanteisiol i'r briffordd.

Dywedodd y Rheolwr Rheoli Cynllunio ei fod, ar ôl cymryd sylwadau'r Swyddog Priffyrdd i ystyriaeth, yn dal i gredu y dylid cymeradwyo'r cais. Ymhellach, pwysleisiodd y dylai'r Pwyllgor ddelio gyda'r cais fel y cafodd ei gyflwyno ger ei fron a pheidio dyfalu ynghylch unrhyw ddefnydd o'r safle yn y dyfodol. Byddai angen caniatâd cynllunio ar gyfer unrhyw newid defnydd o'r anheddau yn y dyfodol a mater i'r Pwyllgor fyddai penderfynu ar hynny.

Mewn ymateb i gwestiynau gan y Cynghorwyr T Jones a H Thomas, cadarnhaodd y Rheolwr Rheoli Cynllunio mai cais yw hwn ar gyfer dau fyngalo ac y byddai'r rhain yn gweddu gyda'r anheddau sydd o amgylch y safle ar hyn o bryd.

Ailadroddodd yr Aelod Lleol ei bryderon ynghylch culhau'r palmant gan ddweud bod hynny'n tynnu'n groes i ganllawiau a gyhoeddwyd a'i fod yn credu y dylid glynu wrth y canllawiau hynny.

Cynigiodd y Cynghorydd John Chorlton y dylid cymeradwyo'r cais ac fe gafodd ei eilio gan y Cynghorydd Eric Roberts.

**PENDERFYNWYD cymeradwyo'r cais yn unol ag argymhelliad y Swyddog a chyda'r amodau a amlinellir yn adroddiad y Swyddog i'r Pwyllgor.**

**12.3 – 34C229D – Newid defnydd o ystafelloedd ymgynghori preifat gyda swyddfeydd a salon i greu canolfan gwnsela, cynghori ac asesu gan gynnwys unedau lletya dros nos ar gyfer 5 o bobl fregus dan Ddosbarth C2 yn Llawr y Dref, Mill House, Llangefni.**

Cyflwynwyd y cais i'r Pwyllgor ar gais yr Aelod Lleol, y Cynghorydd Fflur Hughes. Dywedodd y Cynghorydd Hughes (a siaradodd hefyd ar ran y gwrthwynebydd a gofrestrwyd i bwrpas siarad cyhoeddus) ei bod yn cynrychioli trigolion Llawr y Dref yn hytrach na mynegi ei barn ei hun).

Dywedodd bod trigolion Llawr y Dref yn oedrannus ac yn wantan ac nad oeddynt yn gallu cynrychioli eu hunain. Nid oes Warden yn Llawr y Dref ar hyn o bryd. Cadarnhaodd ei bod wedi cyfarfod gyda'r ymgeisydd a'r asiant ynghyd â chynrychiolwyr yr Adran Gynllunio, Heddlu Gogledd Cymru ac un o drigolion Llawr y Dref i drafod y cais. Roedd tri phrif faes a oedd yn achosi pryder. Yn gyntaf, mae parcio yn broblem ddifrifol ac er gwaethaf ymdrechion gorau'r Cyngor i ddatrys yr anawsterau parcio, mae'r broblem yn parhau. Mae staff o amryfal asiantaethau a swyddfeydd ar y stryd fawr yn defnyddio Llawr y Dref i barcio a bu'n rhaid galw'r Heddlu fwy nag unwaith i ddelio gyda phroblem parcio. Er gwaethaf gosod bolardiau mae'r broblem yn parhau.

Mae'r trigolion yn cydnabod yr angen am y cyfleusterau fel sydd wedi'i nodi yn y cais. Fodd bynnag, maent yn credu bod y lleoliad yn annerbyniol. Mae un o'r trigolion wedi gweithio gyda phobl debyg gydag Ymddiriedolaeth Bethany ac Ymddiriedolaeth y Tywysog ac mae'n credu bod y lleoliad yn anaddas ar gyfer defnydd o'r fath. Mae gan drigolion bryderon mawr ynghylch y risgiau a'r temtasiynau, yn arbennig o safbwynt cyffuriau ac alcohol, y byddai'r bobl ifanc yn y ganolfan asesu yn agored iddynt. Roedd yr Heddlu wedi cadarnhau y gallai hyn fod yn broblem. Yn ogystal, roedd trigolion yn bryderus y gellid gweld cynnydd mewn lefelau ymddygiad gwrthgymdeithasol a throsedd a fyddai'n gwaethygu'r sefyllfa o ran eu bod yn teimlo'n ofnus ynghylch eu diogelwch yn eu cartrefi eu hunain.
Gofynnodd y Cynghorydd Hughes am ymweliad safle.

Siaradodd Mrs Mari Jones o blaid y cais. Cadarnhaodd na fyddai parcio yn broblem oherwydd na fyddai'r bobl ifanc yn gyrru ac y gallai staff ddod o hyd i lecynnau parcio digonol yn y meysydd parcio yn Llangefni. Nid oedd unrhyw dystiolaeth i gefnogi'r mater a godwyd o ran risgiau neu demtasiynau. Y gwasanaeth a fyddai'n cael ei ddarparu yn y ganolfan fyddai gwasanaeth i gefnogi pobl ifanc a'u teuluoedd. Byddai dau fflat yn cael eu defnyddio i'r pwrpas hwn gan ddarparu gofal un i un. Gwasanaeth fyddai hwn i lenwi bwlch i gefnogi'r bobl hynny trwy roi sylw i sgiliau dysgu fel sgiliau coginio, sgiliau byw o ddydd i ddydd a sgiliau coleg. Byddai pob cleient yn arwyddo cytundeb gweithredol. Byddai Swyddog Gwasanaethau Cymdeithasol cymwys yn cynorthwyo'r bobl ifanc ac yn eu goruchwylio bob dydd. Byddai'r trydydd fflat yn cael ei ddefnyddio i bwrpas caniatáu i deuluoedd gael cyswllt gyda'u plant pan fo rhieni yn gwahanu neu'n mynd trwy ysgariad. Byddai'r ymweliadau hynny yn digwydd yn bennaf gyda'r nos ac ar y penwythnos. Byddai Gwasanaeth Camerâu Goruchwylio yn monitro'r tri fflat. Byddai aelod o staff yn mynd i'r ganolfan ar sail ad hoc i asesu anghenion pobl a byddai swyddog ar gael ar alwad bob amser ond ni fyddai'n cysgu i mewn yn y ganolfan.

Cadarnhaodd y Rheolwr Rheoli Cynllunio fod gan yr eiddo ar hyn o bryd ganiatâd ar gyfer Dosbarth Defnydd C2 sy'n caniatáu ar gyfer y rhan fwyaf o'r defnyddiau y gwneir cais amdanynt. Yr unig ran o'r cais y roedd angen caniatâd cynllunio ar ei gyfer oedd yr agwedd breswyl. Ychwanegodd y byddai asesiad risg yn cael ei gynnal mewn perthynas â'r bobl sy'n aros yn y ganolfan ac y byddai'n cael ei defnyddio fel gwasanaeth llenwi bwlch. Mewn perthynas â pharcio anghyfreithlon, ychwanegodd nad mater cynllunio oedd hwn ond mater y gallai'r Heddlu ddelio ag ef. Nid oedd yn derbyn y byddai rhoi caniatâd cynllunio yn achosi problemau parcio. Mewn perthynas â'r mater risg a themtasiynau, anogodd yr aelodau i fod yn ofalus gyda'r agwedd hon oherwydd nad oedd unrhyw dystiolaeth i awgrymu y byddai lefelau ymddygiad gwrthgymdeithasol a throsedd yn cynyddu pe bai'r cais yn cael ei gymeradwyo. Atgoffodd yr Aelodau bod trigolion Llawr y Dref wedi cydnabod bod angen cyfleuster o'r fath ac er bod hwn yn fater cynhyrfiol, rhaid ystyried y cais o safbwynt defnydd tir yn unig. Er ei fod wedi gwrando ar bryderon lleol, ni chyflwynwyd unrhyw dystiolaeth i gefnogi pryderon y trigolion ac roedd yn argymell cymeradwyo'r cais.

Dywedodd y Cynghorydd John Chorlton bod ganddo beth profiad yn y maes hwn gan iddo wasanaethu fel Aelod ar Fwrdd Digartrefedd Ynys Môn. Cyfeiriodd at gyfleuster tebyg yn Llys y Gwynt, Caergybi, nad oedd, hyd y gwyddai ef, wedi achosi unrhyw broblemau i drigolion lleol er gwaethaf y ffaith ei fod yng nghanol stad fawr o dai. Roedd yn cytuno gyda'r Rheolwr Rheoli Cynllunio na ddylid cysylltu problemau ymddygiad gwrthgymdeithasol cyfredol gyda'r cais hwn.

Atgoffodd y Cynghorydd Eurfryn Davies yr Aelodau bod yr Aelod Lleol wedi gofyn am ymweliad safle a chynigiodd y dylid felly ymweld â'r safle.

Atgoffodd y Cadeirydd yr Aelodau bod defnydd Dosbarth 2 eisoes yn bodoli ar gyfer yr eiddo a'r unig agwedd yr oedd angen caniatâd cynllunio ar ei chyfer oedd y defnydd preswyl. Roedd yn cwestiynu sut y byddai ymweld â'r safle yn cynorthwyo Aelodau i ddod i benderfyniad. Ni chafodd y cynnig i ymweld â'r safle ei eilio.

Cynigiodd y Cynghorydd Chorlton y dylid cymeradwyo'r cais ac fe gafodd ei eilio gan y Cynghorydd KHughes.

**PENDERFYNWYD cymeradwyo'r cais yn unol ag argymhelliad y Swyddog a chyda'r amodau a amlinellir yn adroddiad y Swyddog i'r Pwyllgor.**

**12.4 – 39C180D/DA – Cais i gymeradwyo materion sydd wedi'u cadw'n ôl ar gyfer codi annedd ynghyd â chreu mynedfa newydd i geir ar dir yn 22 Trem Eryri, Porthaethwy.**

Cyflwynwyd y cais i'r Pwyllgor ar gais yr Aelod Lleol, y Cynghorydd Selwyn Williams.

Estynnodd y Cadeirydd wahoddiad i Mrs G Meekings annerch y cyfarfod fel Gwrthwynebydd i'r cais. Diolchodd Mrs Meekings i'r Aelodau am y cyfle i'w hannerch. Dywedodd bod ei mab yn 37 oed a bod ganddo amryfal anableddau sy'n golygu ei fod yn gaeth i gadair olwyn a'i fod yn dibynnu arni hi am ei ofal. Mae'n cael ffitiau ac mae'n gwerthfawrogi ei breifatrwydd. Mae'n mwynhau eistedd y tu allan yn yr ardd. Mae'r Cyngor wedi darparu anecs iddo yng ngwaelod yr ardd sydd yn amhrisiadwy iddo ef. Byddai'r cynnig yn cael effaith enfawr ar ei mab oherwydd ei fod yn casáu pobl yn syllu arno. Er bod y cynnig yn ymddangos yn rhesymol ar bapur, byddai'r effaith ar fywyd ei mab yn annioddefol. Mae Rhan 7 adroddiad y swyddog yn dweud **"***nid ydym yn ystyried y bydd yr annedd arfaethedig yn cael effaith annerbyniol ar fwynderau oherwydd edrych drosodd, gorgysgodi, dominyddu neu golli preifatrwydd***".** Nid oedd hi'n gallu cytuno gyda'r asesiad hwnnw oherwydd byddai colli preifatrwydd yn enfawr. Mae coed deuddeg troedfedd wedi'u plannu er mwyn darparu lle preifat i'w mab ond, pe bai'r cynnig yn cael ei gymeradwyo, byddai'n colli ei breifatrwydd ac ni fyddai'n gallu eistedd allan yn yr ardd. Anogodd yr aelodau i wrthod y cais.

Siaradodd Mr Mathew Edwards o blaid y cais. Dywedodd ei fod wedi byw yn yr eiddo erioed a'i fod yn adnabod pawb yn y stryd. Dywedodd bod gwrthwynebiad wedi'i gyflwyno i'r fynedfa ond fe atgoffodd yr aelodau bod ganddo ganiatâd cynllunio amlinellol ar hyn o bryd ar gyfer byngalo dormer ac nad oedd unrhyw newid i'r fynedfa yn y cais cyfredol. Dywedodd y byddai tair ffenestr ar y llawr cyntaf, yng nghefn yr eiddo. Byddai un ffenestr ar gyfer yr ystafell ymolchi ac un arall yn ffenestr ar gyfer ystafell wely ei ferch. Roedd yn fodlon derbyn amod y dylai'r ffenestri fod o wydr barugog/velox er mwyn sicrhau preifatrwydd i'r trigolion drws nesaf. Roedd yn dymuno i'w ferch fynd i Ysgol David Hughes, oherwydd ei fod ef wedi gwneud hynny ei hun a gorffennodd trwy ddweud mai dim ond 1m20cm oedd y gwahaniaeth rhwng uchder y byngalo dormer a'r annedd arfaethedig. Mewn ymateb i gwestiwn gan y Cynghorydd Chorlton, dywedodd Mr Edwards mai'r rheswm am y cais diwygiedig oedd bod cyfamod ar yr eiddo a oedd wedi costio llawer o arian i'w dynnu ac roedd yn dymuno cael mwy o arwynebedd sgwâr ar gyfer y datblygiad.

Dywedodd y Rheolwr Rheoli Cynllunio bod y cynnig yng nghanol stad a bod caniatâd cynllunio eisoes yn bodoli ar y safle ar gyfer byngalo dormer. Nid oedd yr annedd deulawr y gwneir cais amdani ar hyn o bryd yn llawer uwch na'r byngalo ac roedd yr eiddo o gwmpas yn eiddo deulawr hefyd. Roedd y Swyddog Achos wedi ymweld â'r safle ac wedi asesu'r sefyllfa. Er ei fod yn cydymdeimlo gyda'r gwrthwynebydd, rhaid delio gyda'r cais ar sail materion cynllunio. Roedd yn credu bod y datblygiad yn briodol i'r ardal ac nad oedd yn cael effaith ar fwynderau lleol. Roedd yn argymell cymeradwyo'r cais yn amodol ar newid Amod 1 i gynnwys dyddiad y cynllun a chyfeirnod y cais.

Mewn ymateb i gwestiwn gan y Cynghorydd Chorlton, cadarnhaodd y Swyddog nad oedd edrych drosodd yn broblem yn ei farn ef. Gofynnodd y Cynghorydd T H Jones a fyddai modd cynnwys amod ynghylch ffenestri gwydr barugog oherwydd bod y gwrthwynebydd wedi mynegi pryderon gwirioneddol ynghylch lles ei mab. Atgoffodd y Swyddog yr Aelodau fod yr ymgeisydd wedi cynnig darparu ffenestri o'r fath ac mai mater i'r Pwyllgor oedd penderfynu a ddylid gosod amod

i'r perwyl. Mewn ymateb i gwestiwn gan y Cynghorydd Hefin Thomas, cadarnhaodd y Swyddog bod y cynnig yn cydymffurfio â'r canllawiau o ran ei bellter o'r eiddo drws nesaf. Gofynnodd y Cynghorydd Chorlton a oedd hi'n rhesymol i ferch yr ymgeisydd gael ffenestr gwydr barugog yn ei hystafell wely. Fodd bynnag, roedd yn derbyn bod yr ymgeisydd wedi cynnig gwneud hynny.

Cynigiodd y Cynghorydd RLOwen y dylid cymeradwyo'r cais ac fe gafodd ei eilio gan y Cynghorydd Chorlton.
Cynigiodd y Cynghorydd THJones welliant, sef y dylid cymeradwyo'r cais yn amodol ar gynnwys amod ychwanegol bod raid gosod gwydr barugog yn y ffenestri ar y llawr cyntaf sy'n edrych dros yr eiddo drws nesaf. Cafodd y cynnig ei eilio gan y Cynghorydd Eurfryn Davies.

Cafodd y gwelliant ei gario - 8 pleidlais i 5.

**PENDERFYNWYD cymeradwyo'r cais yn unol ag argymhelliad y Swyddog a chyda'r amodau a oedd wedi'u cynnwys yn adroddiad y Swyddog i'r Pwyllgor, gan gynnwys hefyd amod ychwanegol yn y rhybudd o'r penderfyniad cynllunio ynghylch gwydr barugog yn ffenestri'r llawr cyntaf sy'n edrych dros yr eiddo drws nesaf gan sicrhau hefyd bod Amod 1 yn cynnwys dyddiad y cynllun a'r cyfeirnod caniatâd cynllunio.**

**12.5 – 40C204F – Codi uned wyliau newydd yn Bryn Awelon, Moelfre.**

*Gwnaed Datganid o Ddiddordeb gan y Cynghorydd J Penri Williams ac ni chymerodd unrhyw ran yn y drafodaeth na'r bleidlais ar y cais.*

Cyflwynwyd y cais i'r Pwyllgor ar gais yr Aelod Lleol, y Cynghorydd Derlwyn Rees Hughes.

Dywedodd y Rheolwr Rheoli Cynllunio y gall polisïau cynllunio gefnogi datblygiad mewn Ardal o Brydferthwch Naturiol Eithriadol ac mewn ardaloedd gwledig ar yr amod bod y datblygiad yn un ar gyfer llety gwyliau safon uchel lle nad yw'n gwrthdaro gyda pholisïau eraill ac yn arbennig lle mae'r datblygiad yn rhan annatod o gynllun cyfansawdd sy'n ychwanegu at gyfleusterau twristiaeth ac adloniant yn yr ardal. Yn anffodus, yn yr achos hwn, does fawr o ddim byd arall ar y safle ar hyn o bryd. Pe bai'r cais yn cael ei gymeradwyo, mae'r ymgeisydd yn dweud y byddai'n tynnu'r garafán sydd ar y safle ar hyn o bryd. Dywedodd y Swyddog nad oes caniatâd cynllunio ar gyfer gosod y garafán ar y safle sy'n gwanhau'r ddadl dros gymeradwyo'r cais. Mae Polisi 8 Cynllun Lleol Ynys Môn yn dweud yn glir bod raid i gais fod yn rhan annatod o gynllun cyfansawdd. Yn yr achos hwn, mae'r Swyddog wedi casglu nad dyna yw'r achos ac felly mae'n argymell gwrthod.

Dywedodd yr Aelod Lleol, y Cynghorydd D Rees Hughes, ei fod ef a'r Cyngor Cymuned lleol yn cefnogi'r cais. Mae'r eiddo yn rhedeg ar hyn o bryd fel busnes Gwely a Brecwast o safon uchel. Mae'r ardal yn dibynnu i raddau helaeth ar dwristiaeth ac mae dau fusnes tebyg wedi dod i ben yn yr ardal yn y ddeuddeng mis diwethaf. Gyda disgwyl y bydd Wylfa B yn cael ei adeiladu, byddai mwy o alw am lety o'r fath. Esboniodd bod yr ymgeiswyr wedi bod yn byw yn y garafán tra oedd yr eiddo yn cael ei adnewyddu. Nid oes modd gweld y safle o unrhyw le ac roedd yn ymwybodol bod ceisiadau tebyg wedi'u cymeradwyo. Roedd yn credu bod y polisi o blaid datblygiadau mawr fel safleoedd carafannau sefydledig. Wrth gloi, dywedodd bod Bryn Awelon yn fusnes bychan a bod angen ei gefnogi. Gofynnodd i'r Aelodau ddefnyddio eu disgresiwn a bod yn hyblyg wrth ystyried y cais. Roedd yn credu y byddai'n rhaid diwygio'r polisi i'r dyfodol i gynnwys busnesau bychan.

Dywedodd y Rheolwr Rheoli Cynllunio, er ei fod yn tueddu i gytuno gyda sylwadau'r Aelod Lleol, ei fod yn delio gyda'r cais yn unol â'r polisïau cyfredol. Roedd yn credu y dylai'r Aelodau ystyried y cais ar y sail honno. Os bydd y polisi yn newid yn y dyfodol, yna gellid cyflwyno cais arall bryd hynny.

Gofynnodd y Cynghorydd THJones pa mor fawr y byddai'n rhaid i'r uned fod i gydymffurfio gyda'r polisïau cyfredol ac ymatebodd y Swyddog nad oes maint lleiaf wedi'i benodi. Gofynnodd y Cynghorydd Jones a fyddai cais am 5 o unedau ynghyd ag ystafell gemau wedi'i argymell ar gyfer ei gymeradwyo. Esboniodd y Swyddog na fyddai oherwydd 'does fawr ddim ar y safle ar

hyn o bryd, gan olygu felly bod y man cychwyn ar gyfer datblygu yn wan ac ni fyddai'r cynnig yn rhan o gynllun annatod.

Cynigiodd y Cynghorydd John Chorlton y dylid gwrthod y cais. Eiliwyd y cynnig gan y Cynghorydd Eric Roberts.

**PENDERFYNWYD gwrthod y cais yn unol ag argymhelliad y Swyddog.**

*Ni chymerodd y Cynghorwyr WTHughes, Eurfryn Davies, CMcGregor a Hefin Thomas unrhyw ran yn y drafodaeth ac ni phleidleisiodd yr un ohonynt ar y cais.*
*Cymerodd y Cynghorydd THJones ran yn y drafodaeth ond ni phleidleisiodd ar y cais.*

**12.6 – 47LPA534A/CC – Cais llawn i godi estyniad i'r annedd ynghyd â gosod gwaith newydd ar gyfer trin carthion yn Pengroeslon,Llanddeusant.**

Cyflwynwyd y cais gan y Pennaeth Gwasanaeth (Eiddo).

Cadarnhaodd y Rheolwr Rheoli Cynllunio bod y cynnig yn cynnwys codi estyniad unllawr to fflat ar ochr yr eiddo ynghyd â gosod gwaith trin carthffosiaeth.

Cynigiodd y Cynghorydd John Chorlton y dylid cymeradwyo'r cais. Roedd y Cynghorydd Eurfryn Davies yn eilio'r cynnig.

**PENDERFYNWYD cymeradwyo'r cais yn unol ag argymhelliad y Swyddog a chyda'r amodau a amlinellir yn adroddiad y Swyddog.**

## 13 MATERION ERAILL

**13. 1–18C201 – Gwaith adeiladu i godi hyd at 9 o dyrbinau cerrynt llanw yn y môr ger Ynysoedd y Moelrhoniaid**

Gofynnodd y Prif Swyddog Cynllunio i'r Aelodau nodi'r adroddiad a chynnig sylwadau arno fel un o'r cyrff yr ymgynghorwyd â nhw, gan mai Llywodraeth Cynulliad Cymru fydd yn gyfrifol am benderfynu ar y cais. Cadarnhaodd bod yr ymgynghori mewnol wedi'i gwblhau'n foddhaol. Cyfeiriodd at yr argymhelliad yn yr adroddiad y dylai'r Cyngor ymateb i'r Sefydliad Rheoli Morol mewn modd cadarnhaol, gyda golwg ar uchelgais y Cyngor i hyrwyddo Ynys Môn fel Ynys Ynni. Yn ogystal, dygir sylw LlCC at rai materion ynghylch effeithiau gweledol ac effeithiau eraill mewn ardal sensitif ond dylai sylw gofalus i gamau lliniaru fedru delio gydag unrhyw effeithiau niweidiol.

Roedd y Cynghorydd KHughes yn ystyried y dylid cynnwys neges o gefnogaeth glir gan y Cyngor yn ei ymateb i LlCC.

**PENDERFYNWYD derbyn yr adroddiad a nodi'r cynnwys ac ymgorffori'r sylwadau uchod fel rhan o ymateb y Cyngor i LlCC.**

**13.2 - Cais amlinellol i godi annedd a chreu mynedfa newydd i gerbydau ar dir yn Gilfach Glyd, Mynydd Mechell.**

Roedd y cais yn tynnu'n groes i bolisi ond roedd Swyddogion o'r farn y dylid ei ganiatáu. Gohiriwyd y cais yn y cyfarfod o'r Pwyllgor hwn ym mis Ebrill fel bod modd datrys materion mewn perthynas â'r fynedfa i'r datblygiad. Er bod Swyddogion wedi cael pwerau dirprwyol i gymeradwyo'r cais ar ddiwedd y cyfnod hysbysebu, sef 10 Mai 2011, roedd Swyddogion wedi penderfynu cyfeirio'r cais yn ôl i'r Pwyllgor i egluro'n bendant bod y gwrthwynebiadau a'r llythyrau o gefnogaeth a gafwyd wedi cael sylw fel rhan o'r broses o benderfynu'r cais.

Dywedodd y Cynghorydd T H Jones mai hwn oedd y trydydd tro i'r cais ddod gerbron y Pwyllgor a bod sylwadau a wnaed gan gefnogwyr a gwrthwynebwyr wedi'u nodi. Cynigiodd y dylid cymeradwyo'r cais. Cafodd ei eilio gan y Cynghorydd KHughes.

**PENDERFYNWYD cymeradwyo'r cais yn unol ag argymhelliad y Swyddog a chyda'r amodau a amlinellir yn adroddiad y Swyddog.**

**13.3 – 40C80B – Cais llawn i godi 4 annedd a chreu mynedfa newydd i gerbydau ar dir y tu cefn i'r Wheel and Anchor, Moelfre.**

Cafodd y cais ei alw i mewn gan yr Aelod Lleol, y Cynghorydd Derlwyn Rees Hughes.
Ers i'r Pwyllgor gymeradwyo'r cais, cyflwynwyd cynllun diwygiedig ar gyfer y fynedfa a oedd yn newid yr amodau a argymhellwyd. Roedd y newid, er mai bychan ydoedd, yn ymwneud â'r fynedfa yr oedd amodau ar ei chyfer. Fodd bynnag, roedd yr adrannau Cynllunio a Phriffyrdd yn fodlon gyda'r newid a'r argymhelliad oedd un o gymeradwyo.

**Cynigiodd y Cynghorydd John Chorlton ac eiliodd y Cynghorydd K Hughes y dylid cymeradwyo'r cais yn unol ag argymhelliad y Swyddog a chyda'r amodau a amlinellir yn adroddiad y Swyddog.**

## RHAN 2 - GORCHMYNION

### 14 CYNGOR SIR YNYS MÔN (AMRYFAL LEOLIADAU CARMEL A THREFOR) (CYFYNGIAD CYFLYMDRA 40MYA)

Cyflwynwyd adroddiad gan y Pennaeth Gwasanaeth (Priffyrdd a Rheoli Gwastraff) i'w ystyried. Roedd yr adroddiad yn amlinellu'r Gorchymyn arfaethedig a baratowyd mewn ymateb i amryfal geisiadau gan y Cyngor Cymuned, yr Aelod Lleol a thrigolion Carmel am ostyngiad yn y cyfyngiad cyflymder o'r cyfyngiad cenedlaethol 60mya. Nid oedd y Gwasanaethau Argyfwng wedi gwrthwynebu'r cynnig ac ni chafwyd unrhyw wrthwynebiadau chwaith gan neb yn ystod y cyfnod ymgynghori cychwynnol. Fodd bynnag, cafwyd un gwrthwynebiad wedyn gan aelod lleol, felly roedd rhaid cyfeirio'r mater i'r Pwyllgor hwn i'w benderfynu. Roedd y rhesymau dros wrthwynebu wedi'u hamlinellu yn yr adroddiad i'r Pwyllgor.

Yn ystod y cyfnod hysbysebu, cafwyd un gwrthwynebiad ac roedd y rheswm drosto wedi'i gynnwys fel rhan o'r adroddiad. Cafwyd deiseb gan drigolion Carmel yn cefnogi'r cynnig. Roedd yr adroddiad yn dod i'r casgliad y byddai'r gostyngiad arfaethedig yn y cyfyngiad cyflymder yn gostwng y tebygolrwydd y byddai damwain yn digwydd a hefyd yn gostwng difrifoldeb y fath ddamweiniau. Byddai arwyddion sylfaenol ar gyfer gorfodaeth gyfreithiol yn cael eu cyflwyno ac roedd y gorchymyn wedi'i baratoi i bwrpas ymgynghori a hysbysebu gyda'r cynnig mewn perthynas â'r B5109 yn Nhrefor a hynny er mwyn gostwng costau.

Cynigiodd y Cynghorydd Hefin Thomas ac eiliodd y Cynghorydd John Chorlton y dylid cymeradwyo'r cynnig yn unol â'r gorchymyn a hysbysebwyd a'r cynlluniau a gyflwynwyd i'r Pwyllgor.

**PENDERFYNWYD cymeradwyo'r cynnig yn unol â'r Gorchymyn a hysbysebwyd a'r cynlluniau a gyflwynwyd i'r Pwyllgor.**

Cychwynnodd y cyfarfod am 1.00 p.m. a daeth i ben am 2.20p.m.

**Y CYNGHORYDD JOHN ARWEL ROBERTS**
**CADEIRYDD**